



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ganolfan Addysg Y Bont
Ffordd Cildwrn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7NG**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2014

Cyd-destun

Ysgol arbennig ddyddiol yw Canolfan Addysg y Bont, wedi ei lleoli yn Llangefni, Môn. Mae'n darparu ar gyfer bechgyn a merched o 3 hyd 19 oed sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan y disgyblion ystod eang o anghenion dysgu, yn cynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Daw bron pob disgybl o Ynys Môn. Adeg yr arolygiad, roedd 84 o ddisgyblion, yn cynnwys 62 bachgen a 22 merch, ar gofrestr yr ysgol. Trefnir yr ysgol yn dri grŵp – cynradd, uwchradd a grŵp o ddisgyblion gydag anghenion dwys a lluosog.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo polisi dwyieithrwydd Cyngor Ynys Môn, gyda'r nod o ddatblygu dinasyddion dwyieithog. Yn ystod y degawd diwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Ar yr un pryd, bu cynnydd sylweddol yn niferoedd y disgyblion sydd wedi symud i fyw i'r sir. Gwelwyd hefyd gynnydd yn niferoedd y disgyblion sydd yn ddi-iaith neu sydd ag anhwylderau ieithyddol difrifol. Mae dau ddisgybl dan ofal yr awdurdod lleol. Mae 48% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Symudodd yr ysgol i adeilad newydd pwrpasol ym mis Ebrill 2014. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar yr un safle â'r ysgol uwchradd a'r ganolfan hamdden leol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2008. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers tair blynedd.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl, ym mhob cyfnod allweddol, yn gwneud cynnydd da dros amser mewn perthynas â'u gallu a'u hanghenion unigol;
- presenoldeb y disgyblion yn dda;
- bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn o amgylch yr ysgol;
- disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos parch, gofal a phryder am eraill;
- disgyblion yn awyddus iawn i helpu'i gilydd yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol;
- asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn gryfder;
- yr ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn ag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol; a bod
- yr adeilad newydd yn sicrhau adnoddau o ansawdd uchel.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer yr ysgol;
- holl aelodau'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau a'r meysydd i'w datblygu;
- ystod eang o bolisiâu sydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol;
- yr adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a phwrpasol sy'n seiliedig ar ganfyddiadau gweithdrefnau arfarnu parhaus;
- cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau;
- data cyrhaeddiad a gwaith y disgyblion yn cael eu dadansoddi'n ofalus er mwyn canfod tueddiadau a meysydd i'w gwella; a bod
- y corff llywodraethol yn gefnogol dros ben i waith yr ysgol ac yn derbyn gwybodaeth gyson drwy adroddiadau'r pennaeth.

Argymhellion

- A1 Ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn profiadau dysgu yn yr ysgolion prif lif
- A2 Datblygu ymhellach allu'r llywodraethwyr i herio perfformiad yr ysgol
- A3 Sicrhau cyfleoedd i'r holl athrawon arsylwi ac arfarnu gwersi ei gilydd

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae bron pob disgybl, ym mhob cyfnod allweddol, yn gwneud cynnydd da dros amser mewn perthynas â'u gallu a'u hanghenion unigol. Maent yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol. Maent yn ymfalchïo yn eu llwyddiant, ac yn awyddus iawn i longyfarch eu ffrindiau pan fyddant yn gwneud yn dda.

Nid oes yna wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched a'r rheiny sydd yn gymwys i dderbyn prydau am ddim a'u cyfoedion.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod gwersi. Maent yn gwrando'n astud ac yn ateb a gofyn cwestiynau'n briodol yn ôl eu gallu. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol. Mae disgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol, er enghraifft trwy ddysgu am sut i gadw'n ddiogel yn y gegin. Dros amser, maent yn dysgu sut i gwblhau tasgau yn fwy annibynnol.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn medrau llythrennedd yn ôl eu gallu. Mae disgyblion is eu gallu yn datblygu medrau llythrennedd cynnar yn briodol wrth ddal llyfr yn gywir, troi tudalennau ac edrych ar y lluniau. Maent yn defnyddio paent a thywod yn llwyddiannus i ffurfio llythrennau.

Mae'r disgyblion mwy abl yn darllen ac yn ysgrifennu geiriau unigol, brawddegau neu baragraffau yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn defnyddio sillafu ac atalnodi cywir. Maent yn defnyddio geiriadur a llyfr sillafu yn effeithiol. Mae ychydig o'r disgyblion yn gwneud gwaith estynedig o safon uchel mewn ffurfiau gwahanol, er enghraifft ysgrifennu stori neu lythyr neu lenwi ffurflen gais. Maent yn dangos dealltwriaeth dda a medrau dadansoddi effeithiol wrth adolygu llyfrau neu erthyglau papur newydd.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn medrau rhifedd yn ôl eu gallu. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft trwy gyfrif arian yn y caffi, mesur cynhwysion yn y gegin a phrynu eitemau yn yr archfarchnad leol.

Mae bron pob disgybl yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol. Mae'r disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu yn defnyddio symbolau neu arwyddo'n effeithiol iawn wrth wneud dewisiadau ac wrth fynegi barn o fewn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dwys yn defnyddio technoleg gynhwysol yn briodol, megis switshis, i reoli offer yn yr ystafell synhwyrâu.

Mae pob plentyn yn hyderus wrth ddefnyddio eu hiaith ddewisol, ac yn datblygu eu medrau iaith yn effeithiol.

Mae pob disgybl 14-19 oed yn ennill cymwysterau cydnabyddedig neu wobrau priodol. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achrediadau a enillwyd gan y disgyblion dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2014, enillodd 19 o ddisgyblion 66 achrediad

mewn unedau Agored Cymru, yn cynnwys unedau mewn garddwriaeth, technoleg gwybodaeth a choginio sylfaenol. Enillodd 29 o ddisgyblion gymhwyster ASDAN, mewn cynnydd personol neu fedrau bywyd. Pasiodd disgyblion mwy abl lefel mynediad mewn rhif neu iaith.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau galwedigaethol trwy brofiad gwaith allanol, er enghraifft garddio neu weithio mewn siop anifeiliaid anwes.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion cyfnod allweddol 4 yn elwa o gyfleoedd i fynychu'r coleg addysg bellach lleol, lle maent yn dilyn cyrsiau ymarferol gyda dysgwyr o ysgolion prif lif. Mae hyn yn arwain at gymwysterau perthnasol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd yn gadael yr ysgol wedi symud ymlaen i goleg addysg bellach neu ddarpariaeth alwedigaethol therapiwtig a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y bydd dysgwyr yn eu cyflawni a chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad dros amser oherwydd yr ystod eang o anghenion arbennig.

Lles: Da

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn teimlo'n hyderus wrth siarad â staff pan fydd ganddynt broblem neu gonsyrn.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda ynglŷn â sut i gadw'n iach. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach. Mae pob disgybl, yn ôl ei anghenion, yn cymryd rhan frwdfrydig mewn ystod eang o ymarfer corff, er enghraifft nofio, marchogaeth a dawns.

Mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon ac yn setlo lawr i weithio'n gyflym. Mae lefel presenoldeb y disgyblion wedi gwella bob blwyddyn ers 2010/2011. Erbyn hyn, mae presenoldeb yn dda.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn o amgylch yr ysgol. Yn yr ychydig o achosion lle maent yn arddangos ymddygiad heriol, gyda chymorth y staff, maent yn dysgu i reoli eu teimladau.

Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol iawn. Mae llawer ohonynt yn mwynhau croesawu ymwelwyr i'r ysgol ac yn gwybod sut i siarad yn gwrtais. Mae pob disgybl yn datblygu ymddygiad priodol yn y gymuned trwy ymweliadau cyson i'r siopau.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos parch, gofal a phryder at eraill. Maent yn awyddus iawn i helpu'i gilydd yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn gryfder.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau byw ac annibyniaeth yn ôl eu gallu trwy wisgo eu cotiau, gwagio eu bagiau a brwsio eu dannedd.

Mae'r disgyblion hŷn yn dysgu medrau gwaith yn briodol trwy baratoi bwyd, gweini a chlirio byrddau yn y cafffi. Mae'r disgyblion mwy abl yn dysgu sut i lenwi ffurflenni cais ac yn dysgu medrau pwysig, er enghraifft cyrraedd yn brydlon i'r gwaith a gwisgo'n briodol.

Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol yn trafod materion pwysig, er enghraifft bwlio. Maent yn dysgu sut i gymryd cyfrifoldeb ac yn gwneud penderfyniadau, er enghraifft pa offer sydd ei angen yn yr ysgol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion eraill i gyfrannu at benderfyniadau am fywyd yn yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn ac yn gweithio'n gyson i baratoi rhaglenni addas i sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol i bob unigolyn. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu, yn cynnwys ystod o opsiynau galwedigaethol. Mae'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer cerddoriaeth, celf ac addysg gorfforol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn y meysydd hyn. Mae ystod werthfawr o weithgareddau tu allan i'r ysgol, er enghraifft marchogaeth, nofio yn y ganolfan hamdden a rhedeg stondin ailgylchu dillad. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddisgyblion sydd wedi cael y cyfle i ddysgu gyda'u cyfoedion yn yr ysgolion prif lif.

Mae ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i'r disgyblion hŷn wneud profiad gwaith mewnol ac allanol, er enghraifft yng nghaffi'r ysgol ac mewn siop anifeiliaid anwes.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol iawn ar lefel strategol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu, trwy ddefnyddio arwyddo a symbolau. Lle bo angen, mae'r ysgol yn trefnu rhaglenni ymyrraeth priodol sydd yn helpu disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm ehangach.

Mae'r ysgol wedi cynyddu'r ystod o gymwysterau a gwobrau addas dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau ASDAN ac Agored Cymru. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr ysgol opsiynau Lefel Mynediad ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog.

Mae'r ysgol yn hybu dwyieithrwydd yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn creu awyrgylch lle mae pob disgybl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg, yn unol â'u gallu a'u profiad. Mae hyn yn gryfder.

Mae'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth ddefnyddiol am addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy, er enghraifft o ran lleihau gwastraff ac ailgylchu. Mae hefyd yn hybu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft, trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Addysgu: Da

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn creu awyrgylch sy'n meithrin dysgu. Trwy gynllunio manwl, maent yn sicrhau bod amrediad da o adnoddau a dulliau addysgu gan ystyried anghenion penodol y disgyblion. Mae hyn yn llwyddo i ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod y gweithgareddau'n ddigon heriol i gynnal diddordeb pob disgybl.

Mae'r athrawon yn defnyddio'r cymorthyddion yn effeithiol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, yn ogystal â chefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion unigol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol. Maent yn modelu iaith yn dda ac yn dangos defnydd priodol o'r ddwy iaith fel bo'r gofyn. Maent yn rhoi gorchmynion clir, ac yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ateb cwestiynau.

Mae'r staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau, er enghraifft adborth llafar, sticeri a gwobrau, i annog y disgyblion. Mae hyn yn datblygu gallu'r disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Mae hyn yn gryfder ar draws yr ysgol.

Mae prosesau olrhain cynnydd ar draws yr ysgol gyfan yn gyson ac yn fanwl iawn. Mae'r ysgol yn cofnodi ac yn tracio cynnydd y disgyblion yn systematig ac yn rheolaidd. Mae'n defnyddio'r data i drefnu ymyrraeth briodol i unigolion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ar gyfer cofnodi ac achredu cyflawniadau dysgwyr. Mae'r adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn darparu gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol bwrpasol, sy'n rhoi pwyslais priodol ar gydbertynas a chadw'n ddiogel yn y gymuned. Mae'n darparu cyfleoedd symbylol yn rheolaidd ar gyfer myfyrio mewn gwasanaethau ysgol-gyfan. Er enghraifft, mae disgyblion yn myfyrio ar bwysigrwydd peidio â phoeni am bethau o'r gorffennol na allant eu newid.

Mae gan yr ysgol bolisiâu priodol a threfniadau effeithiol iawn i hyrwyddo ffordd iach o fyw a lles disgyblion. Mae pob disgybl yn cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff pwrpasol er mwyn datblygu eu cryfder a'u ffitrwydd. Lle bo'n briodol, mae therapyddion yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol i staff ynglŷn â disgyblion unigol. Mae disgyblion yn cael eu hannog i fwyta bwyd ac yfed diodydd sy'n eu helpu i ddatblygu a chynnal ffyrdd iach o fyw.

Mae'r ysgol yn rheoli prosesau statudol, gan gynnwys cynnal adolygiadau blynyddol o ddatganiadau, yn effeithiol. Mae cymorth i ddisgyblion a'u rhieni yn ystod cyfnod pontio i'r ysgol ac i weithgareddau ar ôl iddynt adael yr ysgol, yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr bod rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plentyn, trwy alwadau ffôn, dyddiaduron ac adroddiadau blynyddol cynhwysfawr.

Fodd bynnag, nid yw pob rhiant yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y gwaith mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn ag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae'r gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i gefnogi'r teulu cyfan yn arbennig o effeithiol, ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael gofal a chymorth personol o ansawdd uchel.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae adeilad a safle'r ysgol yn ddiogel.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ymdeimlad cartrefol iawn gydag ethos cynhaliol a hapus yn nodwedd gref.

Mae'r ysgol yn ymroddedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfleoedd i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofawyr. Mae'r ysgol yn un gynhwysol sy'n parchu amrywiaeth ac yn galluogi pawb yn yr ysgol i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Mae awyrgylch diogel a symbylol gyda chydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng y plant â'i gilydd. Rhoddir bri a gwerthfawrogiad i gyfraniad pob unigolyn yng nghymdeithas yr ysgol.

Mae adeilad yr ysgol yn newydd a phwrpasol at ddibenion penodol yr ysgol. Mae'r cyfleusterau'n dda iawn ac mae amrediad eang o adnoddau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r pwll hydrotherapi eto'n weithredol ac nid yw'r ardaloedd tu allan wedi eu datblygu llawn.

Mae ardaloedd arbenigol, er enghraifft yr ystafell medrau bywyd, wedi galluogi'r ysgol i gynyddu'r ystod o opsiynau galwedigaethol i'r dysgwyr hyn. Mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn. Yn gyffredinol, mae'r arddangosfeydd yn yr ardaloedd addysgu yn ddeniadol a lliwgar ac yn cynnal diddordeb y dysgwr yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar weledigaeth i hyrwyddo partneriaeth rhwng pawb. Mae wedi creu tîm effeithiol sy'n pennu cyfeiriad a phwrpas i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chaiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir. Mae gan holl aelodau'r staff ddealltwriaeth glir o gryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i drafod cynnydd a chadw golwg ar flaenoriaethau'r ysgol yn dda.

Mae strategaethau penodol ar waith ar gyfer codi safonau yn yr ysgol, gydag ystod eang o bolisiau sydd wedi eu hadolygu yn ddiweddar ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad wedi arwain at nodi agweddau penodol y mae angen eu gwella ac wedi arwain at nodi blaenoriaethau priodol yn y cynllun gwella ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol dros ben i waith yr ysgol ac yn derbyn gwybodaeth gyson drwy adroddiadau'r pennaeth. Yn dilyn ymweliadau cyson i ddsbarthiadau, maent yn dod yn gynyddol fwy gwybodus o ansawdd yr addysg a dderbynia'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw gallu'r llywodraethwyr i herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol wedi ei datblygu ddigon.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn enwedig gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a sicrhau eu lles.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer arfarnu ansawdd ei bywyd a'i gwaith. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a phwrpasol sy'n seiliedig ar ganfyddiadau gweithdrefnau arfarnu parhaus. Mae pob aelod o'r staff yn cyfrannu i'r broses yn effeithiol drwy ddefnyddio data perthnasol. O ganlyniad, mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth dda o gryfderau a'r agweddau i'w gwella. Caiff data cyrhaeddiad a gwaith y disgyblion ei ddadansoddi'n ofalus er mwyn canfod tueddiadau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae'r arfer o arsylwi gwersi yn gyfyngedig i'r pennaeth ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae cyfleoedd i asiantaethau a chymdeithasau allanol fynegi barn yn gryfder amlwg.

Mae'r prif flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella cyrhaeddiad y disgyblion. Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant heriol a therfynau amser penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd ac yn gweithredu ar sail y blaenoriaethau yn effeithiol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaethau gydag ystod eang o asiantaethau arbenigol a gwasanaethau cefnogol. Er enghraifft, mae gwaith ar y cyd gyda therapyddion a Phrifysgol Bangor yn cael effaith gadarn iawn ar ddisgyblion sydd ag ymddygiad heriol.

Mae disgyblion hŷn yn elwa o'r bartneriaeth rhwng yr ysgol, y gwasanaeth gyrfaedd a darparwyr ôl-16. Mae'r gwaith hwn yn helpu'r disgyblion i wneud dewisiadau ynglŷn â'u bywyd ar ôl gadael yr ysgol. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ffair yrfaedd lwyddiannus iawn, ar gyfer disgyblion yr ysgol a holl ysgolion uwchradd yr ardal.

Mae'r gwasanaeth 'ymestyn allan' yn llwyddiannus yn y modd y mae'n helpu ysgolion prif lif i ddatblygu eu medrau a'u harbenigedd ym maes anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi datblygu partneriaethau priodol gydag ysgolion prif lif er mwyn ehangu cyfleoedd dysgu'r disgyblion.

Mae partneriaeth gyda cholegau lleol trwy rwydweithiau 14-19 yn galluogi disgyblion hŷn i ddatblygu eu medrau galwedigaethol a gwella eu dealltwriaeth o fyd gwaith. Mae cyrsiau diddorol, er enghraifft gofal anifeiliaid bach, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn profiad gwaith gyda chyflogwyr lleol cefnogol.

Mae gwaith gydag ysgolion arbennig lleol ac, yn fwy diweddar, ar draws rhwydwaith ehangach, yn helpu'r ysgol i sicrhau ansawdd ei darpariaeth o ran y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwella ei chysondeb wrth asesu cynnydd y disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol gyflenwad llawn o athrawon a chymorthyddion sydd â phrofiad a chymwysterau addas i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae'n defnyddio arbenigedd staff mewnol ac allanol yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o'u doniau penodol. Mae'r staff cymorth yn gweithio'n effeithiol fel tîm gydag athrawon ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddysgu a lles disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn weithredol ac mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn bodloni'r gofynion statudol.

Mae cyfranogiad yr ysgol mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn effeithiol ac wedi arwain, er enghraifft, at wella'r cysondeb yn y modd mae aelodau'r staff yn cyflwyno agweddau ar addysg bersonol i'r disgyblion.

Fe gaiff adnoddau a'r adeilad eu rheoli yn ofalus iawn i sicrhau cyfle cyfartal, yn enwedig yn y defnydd o ystafelloedd arbenigol megis cymorth synhwyro, celf, cerdd a chrochenwaith.

Mae'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn monitro'r gyllideb yn effeithiol. Ar sail hyn, ac oherwydd bod disgyblion yn cyflawni deilliannau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr Arolwg Arbennig (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel safe in my school.	17	15 88%	0 0%	2 12%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		94%	2%	4%	
The school deals well with any bullying.	16	12 75%	1 6%	3 19%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		82%	8%	10%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	16	12 75%	1 6%	3 19%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		91%	3%	6%	
The school teaches me how to keep healthy	17	15 88%	0 0%	2 12%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		92%	3%	5%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	17	14 82%	1 6%	2 12%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		92%	4%	4%	
I am doing well at school	17	16 94%	0 0%	1 6%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		93%	3%	3%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	17	15 88%	0 0%	2 12%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		97%	1%	2%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	17	14 82%	0 0%	3 18%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		94%	2%	4%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	15	8 53%	0 0%	7 47%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		72%	13%	15%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	17	15 88%	0 0%	2 12%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		91%	5%	4%	
Other children behave well and I can get my work done.	17	16 94%	0 0%	1 6%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		83%	10%	7%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	17	16 94%	0 0%	1 6%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		87%	8%	5%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	36	32 89%	4 11%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		77%	21%	1%	1%		
My child likes this school.	36	35 97%	1 3%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		78%	21%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	36	33 92%	3 8%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		79%	20%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	36	30 83%	6 17%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		66%	30%	2%	0%		
Pupils behave well in school.	36	26 72%	10 28%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		52%	35%	4%	0%		
Teaching is good.	36	30 83%	6 17%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		74%	23%	1%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	36	29 81%	7 19%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		67%	30%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	29	15 52%	6 21%	0 0%	0 0%	8	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		44%	31%	7%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	36	33 92%	3 8%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		74%	23%	1%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	36	26 72%	10 28%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		68%	28%	1%	0%		
My child is safe at school.	36	34 94%	2 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		75%	22%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	36	31 86%	5 14%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		70%	25%	2%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	35	29 83%	5 14%	1 3%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		67%	28%	3%	1%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	36	32 89%	4 11%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		76%	20%	2%	1%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	36	20 56%	13 36%	1 3%	0 0%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		55%	34%	3%	1%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	36	30 83%	6 17%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		64%	31%	1%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	31	10 32%	13 42%	1 3%	0 0%	7	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		40%	30%	7%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	36	30 83%	5 14%	1 3%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		70%	27%	1%	0%		
The school is well run.	36	34 94%	2 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		75%	22%	1%	1%		

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Caroline Rees	Arolygydd Cofnodol
Ann Dackevych	Arolygydd Tîm
Sw Roberts	Arolygydd Tîm
Mervyn Jones	Arolygydd Tîm
Nerys Mckee	Arolygydd Lleyg
Andreas Huws	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau ADY

ADDLI: anawsterau dysgu dwys a lluosog

ADHD: anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

ADP: anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

ADY: anghenion dysgu ychwanegol

ASA: Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

AYA: adnodd ychwanegol yr athro

AYECh: Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

CY: Cod Ymarfer

NAS: nam amlsynhwyrdd

NC: nam ar y clyw

NG: nam ar y golwg